



Prifysgol Abertawe

Menter Myfyrwyr

ADRODDIAD EFFAITH 2020

Cynhyrchwyd gan **Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi**



Adaptable
Addasadwy

Innovation
Arloesedd

Creativity
Creadigrwydd

Motivation
Brwdfrydig

Passionate
Angerddol

Y TÎM MENTERGARWCH

Mae'r tîm canolog, sy'n rhan o'r Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS), yn helpu myfyrwyr a graddedigion i ddatblygu eu sgiliau drwy weithdai a mentrau, er mwyn cael profiadau gwerthfawr a fydd yn eu helpu i sefydlu eu busnesau eu hunain, boed yn hunangyflogedig, yn fenter gymdeithasol, neu'n gweithio ar eu liwt eu hunain.



Emma Dunbar

Pennaeth Ymgysylltu,
Arloesi, Gyflogadwyedd
ac Entrepreneuriaeth



Kelly Jordan

Menter Hÿn
Swyddog Cymorth

CYSYLLTU Â NI

Tîm Mentergarwch Adran y Gwasanaethau Ymchwil
Ymgysylltu ac Arloesi (REIS) Prifysgol Abertawe
Adeilad Talbot | Campws Singleton
Abertawe | SA2 8PP | Cymru

 enterprise@abertawe.ac.uk

 www.swansea.ac.uk/menter



Swansea University
Prifysgol Abertawe

 [Swansea University Enterprise](https://www.facebook.com/Swansea-University-Enterprise)

 [Enterprise_SwanUni](https://www.instagram.com/Enterprise_SwanUni)

 [Swansea-university-enterprise](https://www.linkedin.com/company/swansea-university-enterprise)

CYFLYMU ENTREPRENEURIAETH

Mae ein hymagwedd strategol at Entrepreneuriaeth Myfyrwyr (2018-2023) wedi llywio ymdrech ddiflino i wreiddio gwerthoedd entrepreneuriaeth yn holl werthoedd, polisiâu ac arferion y Brifysgol. Rydym yn falch o gyflawni'r ymrwymiadau tymor hir a nodir yn y strategaeth hon, gan greu Prifysgol entrepreneuriaidd sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r agwedd arloesol i fod yn wirioneddol fentrus.

EIN GWELEDIGAETH

Gwreiddio ecosystem a diwylliant entrepreneuriaidd effeithiol a dynamig Hyfforddi graddedigion entrepreneuriaidd ac arloesol y mae galw mawr amdanynt, o bob Goleg ac Ysgol Cael ein cydnabod yn genedlaethol fel Prifysgol sy'n meithrin mentergarwch ein myfyrwyr.

EIN CENHADAETH


1. Gwreiddio ecosystem a diwylliant entrepreneuriaidd effeithiol a dynamig

2. Hyfforddi graddedigion entrepreneuriaidd ac arloesol y mae galw mawr amdanynt, o bob Goleg ac Ysgol

3. Cael ein cydnabod yn genedlaethol fel Prifysgol sy'n meithrin mentergarwch ein myfyrwyr

HYRWYDDO NEWID

Gweithio ar draws y brifysgol i dod â staff allweddol a myfyrwyr hyrwyddo o bob rhan o'r Brifysgol ynghyd er mwyn cyflymu'r agenda Entrepreneuriaeth ac ysgogi newid mewn diwylliant, drwy gydweithredu a rhannu arfer gorau wrth gyflawni rhaglen integredig o gymorth i fyfyrwyr mewn Ysgolion a Cholegau academaidd.



YMRWYMEDIG I GYMRU

Yng nghyd-destun strategol ehangach Cymru, rydym yn hollol ymrwymedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru, y Cynllun Gweithredu Economaidd - Ffyniant i Bawb a'r mudiad "Creu Sbarc" sy'n annog entrepreneuriaeth wedi'i hysgogi gan arloesi.

Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo'n llawn i Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid Llywodraeth Cymru, gan gydnabod ei bod yn fframwaith hynod effeithiol ar gyfer cefnogi a hyrwyddo mentergarwch yn y Brifysgol a chyd rhanddeiliaid allanol, yn lleol ac yn genedlaethol. Rydym yn hollol ymrwymedig i wella dulliau casglu data ac i weithio ar draws yr ecosystem economaidd i nodi a chyflwyno rhaglen er mwyn cefnogi myfyrwyr a graddedigion i sefydlu busnesau newydd ac i gyflymu eu twf. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi, hyrwyddo a chyfoethogi diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg ac i ddarparu amgylchedd gweithio a dysgu cynhwysol a chefnogol i bawb.





YMRWYMEDIG I'N MYFYRWYR

Rydym wedi creu fframwaith i gefnogi **“Taith Entrepreneuriaidd”** y myfyrwyr drwy ddarparu amgylchedd o gynwysoldeb a hygyrchedd er mwyn annog ein myfyrwyr i sefydlu busnesau newydd ac i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau, eu meddylfryd a'u gwytnwch entrepreneuriaidd.



5,102 YMGYSYLLTU Â MYFYRWYR

Cynyddu ymwybyddiaeth ac uchelgais ar gyfer entrepreneuriaeth drwy gysylltiadau un i un mewn mentrau, megis digwyddiadau gyrfaoedd a chyflogadwyedd, sgysiau sefydlu modiwlau colegau, digwyddiadau Undeb y Myfyrwyr a sgysiau model rôl ac entrepreneuriaeth.

2,320 GRYMUSO MYFYRWYR

Darparu mentora, cyngor un i un, modiwlau arloesi a sefydlu menter, mynediad at gyllid, cyfleoedd 'test trading', lleoliadau gwaith entrepreneuriaeth, rhaglenni cyflymu a llawer mwy i helpu myfyrwyr i sefydlu a thyfu eu busnesau.

RHYNGWEITHIO Â MYFYRWYR AR DRAWS YR HOLL DDISGYBLAETHAU



MYFYRWYR HYFFORDEDIG

Darparu cyfleoedd dysgu entrepreneuriaidd i fyfyrwyr drwy gyfres o weithdai, cystadlaethau, digwyddiadau hacathon, sesiynau dwys a mentrau entrepreneuriaidd allgyrsiol a chydgwricwlaidd.



THEMÂU CYFLYMU

1. CREU CYMUNEDAU O ENTREPRENEURIAID

Wrth ddarparu plafform i alluogi ein myfyrwyr i arwain gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar fentergarwch, rydym wedi sbarduno cymuned gynyddol a brwdfrydig, sy'n addysgu ac yn ysbrydoli eu cymheiriaid mewn cymdeithasau myfyrwyr unigol, yn annog cydweithredu rhwng cymdeithasau ac yn ymgysylltu â'r gymuned ehangach o randdeiliaid allanol. Wrth wneud hyn, maent yn datblygu sgiliau pwysig a gwybodaeth ymarferol a fydd yn eu cefnogi ar eu taith sefydlu busnes.



10

MENTER A ARWEINIR GAN FYFYRWYR



11

MYFYRIWR AR INTERNAETH WEDI'U CYFLOGI



54

DIGWYDDIADAU I ADEILADU RHWYDWEITHIAU A CHYMUNEDAU

2. BLAENORIAETHAU A CHYDWEITHREDU RHANBARTHOL

Rydym wedi nodi a chreu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol ac â phwyslais ar gryfderau ein sefydliad er mwyn cefnogi myfyrwyr i sefydlu busnesau ac i roi cynnig ar fasnachu yn y rhanbarth.




1

HACATHON RHYNGWLADOL



8

MENTER MENTERGARWCH A ARWEINIR GAN GOLEGAU



23

DIGWYDDIAD RHWYDWEITHIO RHANBARTHOL

3. SEFYDLU A THYFU

Rydym wedi datblygu cyfleoedd arloesol i nodi a chynyddu busnesau newydd gan fyfyrwyr â phwyslais ar y rhai sydd â photensial i dyfu.



2

GYSTADLEUAETH FLYNYDDOL



2

RHAGLENNI DECHRAU



10

LLEOLIAD GWAITH ENTREPRENEURIAIDD



25

O FYFYRWYR WEDI CYMRYD RHAN YNG NGHYSTADLEUAETH RITHWIR Y BIG PITCH



80

O FMYFYRWYR A GRADDEDIGION WEDI COFRESTRU AR GYFER WYTHNOS CYCHWYN BUSNES YR HAF CYMRU GYFAN

BUDDSODDIAD YN EIN MENTRAU NEWYDD

£44,780

BUDDSODDIAD A GODWYD I DDECHRAU MENTRAU NEWYDD DRWY BARTNERIAETHAU



£24,000

gan Brifysgolion Santander i gefnogi'r rhai a oedd yn dechrau busnes newydd



£12,500

gan Brifysgolion Santander i gefnogi busnesau newydd y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt



£5,000

gan Go Compare



£3,000

gan Gystadlaethau Engineers in Business



£280

gan Gyn-fyfyrwyr i gefnogi Gweithgareddau Mentergarwch

£18,480

BUDDSODDIAD MEWNOL GAN ADRANNAU AR DRAWS Y BRIFYSGOL



£10,000

gan Bwyllgor Mentor ac Arloesi'r Ysgol Reolaeth



£8,480

gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe ar gyfer interniaethau

YMRWYMEDIG I STAFF

Mae'r Brifysgol yn parhau i feithrin ei chymunedau mewnol, gan gydweithio i greu synergeddau a chysylltiadau rhwng colegau, ysgolion ac adrannau proffesiynol drwy sicrhau ein bod yn cefnogi ein gilydd, yn rhannu arfer gorau, adnoddau ac addysgu, dysgu, menter ac arloesi ar draws adrannau i ddileu ffiniau traddodiadol a seilos er mwyn grymuso eraill i gyflawni entrepreneuriaeth.



DATBLYGU CWRICWLAIDD/ CYD-GWRICWLAIDD



Ar hyn o bryd, ceir **34 modiwl sy'n canolbwyntio ar Fentergarwch, Entrepreneuriaeth neu Arloesi** y mae **855 o fyfyrwr wedi cofrestru arnynt** (Blwyddyn Academaidd 2019/20); yn ogystal, mae **3,943 o fyfyrwr eraill yn ymgymryd â gweithgareddau entrepreneuriaeth** yn eu modiwlau.



3 PEIRIANNEG

3 GWYDDONIAETH

3 FEDDYGAETH

2 DYNOL AC IECHYD

2 CELFYDDYDAU A'R DYNIAETHAU

4 GYFRAITH

17 REOLAETH



Rydym wedi **annog a chefnogi ein cydweithwyr i wreiddio entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm**, gan gynnwys y pecyn cymorth ETC, i ddatblygu modiwlau a rhannu arfer gorau.



Rydym yn **adolygu ein Llwybr Gyrfa Academaidd** i gydnabod gweithgareddau addysgu ac ymgysylltu entrepreneuriaidd.



Mae'r Tîm Mentergarwch wedi **datblygu uned draws-gampws** sydd wedi'i chynnwys yn y cwrs Datblygu Gyrfa "**Dechrau eich busnes eich hun**" sy'n un o'r 16 o unedau sydd ar gael er mwyn paratoi myfyrwr ar gyfer gyrfaedd. Ers ei lansio ym mis Awst 2020, **mae 62 o fyfyrwr wedi dilyn yr uned.**

YMRWYMEDIG I WEITHIO GYDA PHARTNERIAID A RHANDDEILIAID

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn rhannu ymdeimlad cyffredin o bwrpas ac yn gweithredu fel 'cymuned gysylltiedig o gymunedau' a adeiladwyd ar ymddiriedaeth ac atebolrwydd personol. Rydym yn arloesol ac yn ddynamig, ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu arweinyddiaeth entrepreneuraidd ar gyfer heriau rhanbarthol a bydeang.

Prifysgolion Santander

Fel un o 85 o brifysgolion Santander, rydym yn derbyn cyllid i gefnogi Addysg, Cyflogadwyedd ac Entrepreneuriaeth. Derbyniodd y tîm entrepreneuraeth £18,000 i gefnogi myfyrwyr i sefydlu busnesau, ac fe'u dyfarnwyd i fyfyrwyr drwy weithgareddau megis Her £100, a'r rhaglenni Broliant Mawr a'r Rhaglen Gyflymu.



Syniad Mawr Cymru

Syniadau Mawr Cymru



Cyfeirio Myfyrwyr i Ddarparu Cefnogaeth Rhanbarthol

Rydym yn uchelgeisiol a'n nod yw gwneud gwahaniaeth i fywydau a dyfodol ein myfyrwyr a'r gymuned, ein cymdeithas a'r economi ehangach drwy ymrwmo'n llwyr i weithio gyda myfyrwyr fel partneriaid allweddol, gyda chydweithwyr mewn ymagwedd drawsddisgyblaethol at addysg ac ymchwil, gyda phartneriaid addysgol mewn prifysgolion eraill, colegau ac ysgolion; a chydha rhanddeiliaid rhanbarthol o fyd busnes a grwpiau cymunedol.



Starting up in the Region



Mae Tîm Mentergarwch Prifysgol Abertawe wedi dechrau cydweithrediad strategol newydd â 4thRegion (sefydliad sy'n dod â busnesau rhanbarthol, grwpiau cymunedol ac arloeswyr ledled de-orllewin Cymru ynghyd) i greu "Starting up in the Region". Mae Prifysgol Abertawe'n talu ffioedd aelodaeth o'r rhwydwaith ar gyfer mentrau ei myfyrwyr am flwyddyn gyfan. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr sy'n dechrau busnes i gael cyhoeddusrwydd am eu busnes yn y rhanbarth, mynychu digwyddiadau a fforymau aelodau ond hefyd i elwa o gefnogaeth amhrisiadwy gan adeiladu eu rhwydweithiau eu hunain gyda'r 250 o fusnesau eraill sy'n aelodau.

Pan lansiwyd y rhaglen ym mis Tachwedd 2020, rhoddwyd aelodaeth i 10 busnes newydd fel rhan o Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang 2020.

YMATEB I COVID-19

Ar 16 Mawrth 2020, daeth gweithgareddau wyneb yn wyneb yn y Brifysgol i ben yn sgil cyfyngiadau a bennwyd gan y Llywodraeth mewn ymateb i Bandemig Byd-eang Covid-19.

Effeithiodd COVID, a chyfnod y cyfyngiadau a ddilynodd, yn sylweddol ar ein gallu i gysylltu â chynifer o fyfyrwyr a graddedigion ag arfer drwy weithgareddau wyneb yn wyneb megis digwyddiadau. Er hynny, roedd cyfnod y cyfyngiadau yn gatalydd newid ac yn gyfle i ni adolygu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau a chanolbwyntio ar gyfleoedd a ffyrdd newydd o weithio, megis darparu gwasanaethau ar-lein, defnyddio plattfformau fideo a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cysylltu a chadw mewn cysylltiad.



Santander
Universities

EIN GWASANAETHAU A'N CYMORTH

Symudodd y tîm Mentergarwch ei holl weithgareddau a chymorth ar-lein i sicrhau bod cyn lleied â phosib o ymyrryd â'r gwasanaeth a ddarperir i fyfyrwyr a staff. Trefnwyd sesiynau un i un ar-lein ar gyfer myfyrwyr presennol a graddedigion diweddar i'w cefnogi yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd, gan ddarparu sicrwydd, cyngor a chymorth i weddnewid eu modelau darparu er mwyn goroesi'r argyfwng.

Cynhaliwyd ein cystadleuaeth "Big Pitch" flynyddol yn rhithwir er mwyn dyfarnu cyllid i'r rhai a oedd am ddechrau busnes. Cyflwynodd 21 myfyriwr eu fideos hyrwyddo tair munud a **dyfarnwyd £12,000**. Darparodd Prifysgolion Santander **gyllid ychwanegol gwerth £12,500** i Brifysgol Abertawe er mwyn cefnogi busnesau newydd myfyrwyr y mae'r Pandemig Byd-eang wedi effeithio arnynt.



CYDWEITHREDU LEDLED CYMRU

Mae gweithio'n rhithwir wedi annog cydweithredu ledled Cymru; daeth yr Hyrwyddwyr Mentergarwch mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch ynghyd i gynnal "Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf". **Cofrestrodd 560 o fyfyrwyr a graddedigion** am y rhaglen pum niwrnod ar gyfer busnesau newydd rhwng 8 a 12 Mehefin 2020, pan gyflwynwyd 13 sesiwn gan 20 o arbenigwyr busnes ac entrepreneuriaid. **Enillodd Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf y Wobr Catalydd Entrepreneuriaeth** yn y National Enterprise Educators Awards ym mis Medi 2020.



Y TAITH

19.03.20

E-bost gan y rheolwr **Mentergarwch ym Mhrifysgol De Cymru** i gydweithio ar **Wythnos Ar-lein Busnesau Newydd Cymru Gyfan**

26.03.20

Hyrwyddwyr Mentergarwch ar gyfer sefydliadau ledled Cymru yn cwrrd ar zoom i greu **4 grŵp tasg**:

1. Technoleg a Logisteg
2. Cynnwys a Churadu
3. Marchnata
4. Creu Cymuned

26.05.20

Gwefan, y Cyfryngau Cymdeithasol ac aeth Eventbrite yn fyw

308 o Aelodau mewn Cymuned Facebook barhaus a mwy na **3.8k o enghreifftiau o ymgysylltu**

www.summerstartup.co.uk

Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf / Summer Start-Up Week 2020

startupweek2020

@startupweek2020

3.06.20

Sesiwn Torri Iâ a Gwybodaeth gyda'r Sefydliad Derbyn a 2 Entrepreneur yn rhannu eu straeon

4.06.20

500 Tocyn OLL WEDI'U GWERTHU creu rhestr wrth gefn
288 gyda syniad busnes
144 camau cynnar masnachu
134 yn chwilio am ysbrydoliaeth

8-12.06.20

20 Entrepreneur ac arbenigwr busnes yn **cyflwyno sesiynau byw llawn ysbrydoliaeth a gwybodaeth**

12.06.20

Lanlwytho recordiadau sesiynau i'r Wefan ac fe'u **cychwyd 759** o weithiau yn yr wythnosau cyntaf



ASTUDIAETHAU ACHOS: MENTRAU NEWYDD YN YMATEB I'R ARGYFWNG

Mae cychwyn busnesau yn allweddol wrth ysgogi twf economaidd a chreu swyddi, ac maen nhw'n ysbarduno achosion o arloesi radical yn aml.

Yn ystod argyfwng coronafeirws (COVID-19), mae busnesau newydd wedi parhau i chwarae rôl hanfodol yn economi'r DU. Mae rhai cwmnïau ifanc arloesol, yn ogystal â llawer o fusnesau newydd y bydd myfyrwyr yn eu cychwyn, wedi ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i'r pandemig, ac maen nhw wedi bod yn hynod o bwysig yn y gwaith o helpu i addasu a symud tuag at waith a gwasanaethau cwbl ddigidol, yn ogystal ag arloesi, a hynny fel ymateb uniongyrchol i COVID-19.

Just in Case

Sefydlwyd Just in Case gan Emily Farley a raddiodd o'r Ysgol Reolaeth ym mis Gorffennaf 2020 ar anterth y pandemig byd-eang. Gyda'i gwybodaeth am fusnes a'i brwdfrydedd am farchnata a gwasanaeth cwsmeriaid, penderfynodd Emily ddechrau ei menter fach ei hun er mwyn cael y 'profiad' mae diwydiant yn gofyn amdano. Wedi nodi cyfle, penderfynodd Emily ddechrau "Just in Case" gan greu bocsys wedi'u personoli i storio'r gorchuddion wyneb sydd bellach yn orfodol ac sy'n helpu i'n diogelu rhag Covid-19.

Ers lansio'r fenter ym mis Medi 2020, mae Emily wedi gwerthu dros 700 o focsys drwy amrywiaeth o sianelau ar-lein ac wedi allforio ei chynnyrch ledled y byd. Oherwydd ei llwyddiant, mae Emily bellach yn ehangu i gynhyrchion wedi'u personoli eraill yn y farchnad rhoddion. Am ragor o wybodaeth, ewch i:


Instagram @justincase.designs



3D Crowd

Defnyddiodd David Sims, myfyrwr Cyfrifiadureg yn yr ail flwyddyn, ei argraffydd 3D i argraffu a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol megis feisorau a'u rhoi i'r gwasanaethau iechyd er mwyn mynd i'r afael â'r prinder roeddent yn ei wynebu. Sefydlodd David 3D Crowd a chodi dros £15,000 drwy gyllido torfol gan berchnogion argraffwyr 3D ledled y DU i brynu deunyddiau ar gyfer argraffu cyfarpar.

Croeso i 3D Crowd
www.3dcrowd.org.uk



Letzee

Sefydlodd Joshau Letzee ei fenter Letzee yn ystod ei ail flwyddyn ar raglen Rheoli Busnes yn Abertawe. Mae Letzee yn fusnes sy'n cynnig teithiau rhiithwir 3D o eiddo i ddarpar denantiaid, gan alluogi landlordiaid i ddangos eu heiddo i ragor o ddarpar denantiaid heb orfod fod yn bresennol ar y pryd. Lansiodd Josh ei fusnes ym mis Mawrth 2020 a chyda chymorth gan y Brifysgol, mae wedi mynd o nerth i nerth.


South Wales' Premier 3D Virtual Tour
www.letzee.co.uk



WYTHNOS ENTREPRENEURIAETH FYD-EANG 2020

16^{eg}-22^{ain} Tachwedd

Cynhaliodd Prifysgol Abertawe raglen o ddigwyddiadau ar gyfer Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang gan ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru: dechrau busnes, mentrau cymdeithasol, technoleg ac arloesi, entrepreneuriaeth menywod a phobl BAME. Gwahoddwyd nifer helaeth o gyn-fyfirwyr Prifysgol Abertawe ac entrepreneuriaid yn y rhanbarth i ddod yn ôl i ysbrydoli ac annog ein rhanddeiliaid.



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

RHANNU LLWYDDIANT



1 Ymgeisydd Rownd Derfynol Prifysgolion Santander

2020 Alex Coldea | www.mydill.co.uk



1 Gwobrau Addysgwyr Menter Cenedlaethol

Catalydd Entrepreneuriaeth
**WYTHNOS CYCHWYN
BUSNES YR HAF**



Hyrwyddwr Mentergarwch Prifysgol Abertawe wedi'i gydnabod yn y Gwobrau Addysgwyr Menter Cenedlaethol


Kelly Jordan yn y 3 uchaf ar restr fer Sêr y Dyfodol mewn Addysg Fenter



5 Ar Restr Wales Online o 35 o Entrepreneuriaid Gorau

Alex Coldea, Joe Charman, Joelle Drummond, Michael Pinocci, Sam Gibbson

BETH OEDD GAN EIN MYFYRWYR I'W DDWEUD?




Roedd gen i syniad bras iawn o sut roeddwn i'n bwriadu sefydlu fy musnes fy hun, felly cefais gyfarfod unigol gyda'r Tîm Menter. Mae gan y tîm ystod eang o wybodaeth ac mae'n nhw'n barod iawn i'w rhannu! Roeddwn i wedi fy ysbrydoli yn dilyn y cyfarfod ac yn gyffrous iawn i roi fy syniadau ar waith! Mae'r tîm yn gefnogol ac yn hyblyg, ac yn rhannu'r un brwdfrydedd â mi! Rydw i'n argymhell i unrhyw un sydd â diddordeb mewn entrepreneuriaeth i gael cyfarfod gyda'r tîm.



SAM CRESSALL
MYFYRIWR PEIRIANNEG

Mae derbyn y cyfle i gael cyngor wrth Dîm Menter Prifysgol Abertawe wedi fy ngalluogi i gael cefnogaeth anhygoel ac wedi datblygu fy ngwybodaeth wrth sefydlu'r busnes InTouch Marketing Consultancy. O ganlyniad i gymorth y tîm, rydw i a fy mhartner busnes wedi mynd o nerth i nerth gan ddatrys unrhyw broblem ac ateb unrhyw ymholiad gyda chymorth aelod staff proffesiynol i'n tywys ni yn y cyfeiriad cywir.



HANNAH WARDEN
MYFYRWRAIG BUSNES

Tîm anhygoel sy'n gweithio hyd eithaf eu gallu i helpu entrepreneuriaid ifanc i lwyddo. Dim ond ychydig fisoedd yn ôl glywais i am y tîm ond rwyf eisoes wedi manteisio ar fentora gwych a chyfleoedd a fydd yn trawsnewid fy mywyd. Rydw i'n eu hargymhell nhw'n fawr.



JAMES ANDREWS
MYFYRIWR BIOLEG

Mae'r Tîm Menter wedi cynnig cymaint o gyfleoedd i mi; cyfleoedd na fydden ni wedi eu derbyn heb y tîm. Mae'r rhyngweithio gyda chwmnioedd mawr; boed yn rhai cyhoeddus neu breifat, wedi bod yn amhrisiadwy ac mae'r rhwydweithio a ddaeth yn sgil y rhyngweithio wedi fy ngalluogi i ddatblygu'n broffesiynol a hynny y tu hwnt i fy mhrofiadau yn y brifysgol.



JOSHUA HARRIGAN
MYFYRIWR CHWARAEON

Mae'r Tîm Menter yn anhygoel; maen nhw'n gwneud eu gorau glas ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu gyda sefydlu busnesau myfyrwyr. Mae'r gefnogaeth barhaus rydw i wedi ei derbyn wrth y tîm wrth i mi sefydlu fy musnes, GoGo Coffee, wedi bod yn arbennig. Heb os, gallaf ddweud yn bendant, heb y gefnogaeth wrth y tîm menter, ni fyddai fy nghwmni yn y sefyllfa hon erbyn heddiw.



LUKE GREEN
MYFYRIWR BUSNES

BUSNESAU A SEFYDLWYD YN 2020



3D Crowd

David Sims

Argraffu 3D o'r adnoddau y mae'r GIG eu hangen

3dcrowd.org.uk

Aldean Designs

Rowan Aldean

Datblygu meddalwedd a gwefannau

aldeandesign.com

Alumus Capital Management LTD

Drew stephens

Cyllid a buddsoddiad

alumuscapitalmanagement.co.uk

Beauty by Jodanna

Jodanna Dower

Triniaethau harddwch

[Instagram @JD_nails_beauty](https://www.instagram.com/jd_nails_beauty)

Becs-2020

Amelia Gilbert

Dillad sy'n addas ar gyfer y ddau ryw

myshopify

Books Outside The Shop

Vicky Brewster

Gwasanaeth tanysgrifio i lyfrau

thebooksoutsidethebox.com

Conser

Samuel Posejal

Datblygu gwefannau

conser.co.uk

CrafticalHit

Felicity Mckee

Crëwr disiau

[etsy @CrafticalHit](https://www.etsy.com/CrafticalHit)

DMK Sports Massage

Darran McKeown

Tylinio cyhyrau a meinweodd

[Facebook @DMK Sports Massage](https://www.facebook.com/DMK_Sports_Massage)

Duffers Design

Alex Duffield

Busnes Argraffu 3D

[Facebook @Duffers Design](https://www.facebook.com/Duffers_Design)

Letzee

Joshua Blackhurst

Gwasnaeth Taith Rithiol 3D o gwmpas adeiladau

letzee.co.uk

Eatalian's

Alessandro casentini

Prydau parod Eidalaidd ar Stryd y Gwynt, Abertawe

[Facebook @Eatalian's](https://www.facebook.com/Eatalian's)

GeeBakes

Georgia Woodhead

Busnes cacennau

[Facebook @GeeBakes](https://www.facebook.com/GeeBakes)

GOO Crew

Roland Foster

Teganau i blant (pecynnau 'slime')

Handmade Jelly

Elly Jebbet

Dillad wedi'u huwchgylchu

[depop @ellyjebbet](https://www.depop.com/ellyjebbet)

Help FUR Heroes

Nick Cole

Busnes cerdded cŵn

helpfurheroes.co.uk

HS Handyman

Hayden Pound

Tasgmon

hs-handymanservices.co.uk

In Touch Marketing

Hannah Waldren & Rebecca Maddocks

Cefnogaeth farchnata

intouchmarketingconsultancy.co.uk

Just in Case

Emily Farley

Pecynnau ar gyfer gorchuddion wyneb

[Instagram @justincase.designs](https://www.instagram.com/justincase.designs)

KTY.

Will Macdonald , Curtis Freer a Prajwal Chandra Kanumolu

Ap rhannu arian

kty-ltd.co.uk

Lotus Noise

Aeron Davies

Cerddoriaeth a myfyrdod

lotus-noise.com

Markiv Sales

Vikram Ponnuswamy

Gwasanaeth cludo nwyddau

O Nutrition

Markus Mikkola

Powdwr protein

onutrition.co.uk

Online Esports Tournaments

Oliver Thomas

Masnachwr sy'n cymedroli twrnameintiau e-chwaraeon ar-lein

Online Maths Tutoring

Kartik Kaushia

Tiwtora mathemateg ar-lein

mathsifytutoring.com

Precision Aerospace Investment Group

Ioan Hill

Uno a chaffael cwmnïau peirianneg

[LinkedIn @Precision Aerospace Investment Group](https://www.linkedin.com/company/precision-aerospace-investment-group)

Retonio Ltd

Rebecca Pedrick Case

Adnoddau dysgu gwyddoniaeth

retonio.com

Royce Link Ltd

Thomas Abbott

Platfform cyfathrebu ar gyfer busnesau newydd

roycelink.com

Sade&Co

Luis Williamson

Dillad menywod

[etsy.com @sadecolondon](https://www.etsy.com/sadecolondon)

Seasense

Luke McMillan

Fflip-fflops bioddiraddadwy

seasenseflipflops.com

She Loves Business

Emma Tamplin

Busnes argraffu

[Instagram @shelovesbusiness](https://www.instagram.com/shelovesbusiness)

Side Hustle

Tom Robertson

Platfform sy'n helpu pobl wrth sefydlu eu busnes

Sow your own LTD

Luis Williamson

Dosbarthwr planhigion llysiâu

[@Amazon](https://www.amazon.com)

Spanish lessons

Jeffrey Jean

Gwersi Sbaeneg

Spark & Clean

Nicolas Van eerve

Blychau diheintio

sparkcleanuv.com

SuBrandco

Anu Subra

Cyfyngau cymdeithasol

suBrandco.com

Sunrise and Soul

Joanna Traverse

Gemwaith wedi eu gwneud â llaw

sunriseandsoul.com

Swindon Delivery

Arjun Patel

Dosbarthu o fewn yr awr

swindondelivery.co.uk

Teeeink

Nameel Babu

Cwmni crysau-T

teeieink.com

The Cakeologist

Aungshu Rahman

Busnes cacennau

[Instagram @Cakeologist B.A.R](https://www.instagram.com/Cakeologist.B.A.R)

The Lead Sparks

Adrian Zabica

Gwasanaeth cludo nwyddau

theleadsparks.com

The Rugby Robcast

Robert Yarr

Podcast ar Spotify yn trafod Rygbi

[Anchor.FM @The Rugby Robcast](https://www.anchor.fm/TheRugbyRobcast)

Tidelines Jewellery

Rachel Nichols

Gemwaith, o'r môr, sydd wedi eu gwneud â llaw

[etsy @ Tidelines Jewellery](https://www.etsy.com/TidelinesJewellery)

Triathlon Coaching

Ben Kent

Hyfforddiant triathlon

[Instagram @kernow_tri_coaching](https://www.instagram.com/kernow_tri_coaching)

Vitalize Personal Training

Iwan Williams

Hyfforddiant personol

[Facebook @vitalizehealthandfitness1](https://www.facebook.com/vitalizehealthandfitness1)

Vnectiv

Cameron Calder

Busnes datblygu meddalwedd

vnectiv.com

VulcanIT

Morgan Friskins

Siop TG e-fasnach


vulcanit.co.uk

Wafflab

Alex Coldea

Ap i fyfyrwyr ddod o hyd i dai

wafflat.com



Adaptable
Addasadwy

Innovation
Arloesedd

Creativity
Creadigrwydd



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Menter Myfyrwyr

**ADRODDIAD
EFFAITH 2020**

I weld rhagor o'n darpariaeth, ewch i
www.swansea.ac.uk/enterprise